

2013 Rhif 11 (Cy. 4)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed 10 Ionawr 2013

Yn dod i rym 21 Ionawr 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd - Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn(2).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ionawr 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (*“exempted vehicle”*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (*“works period”*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (*“the lengths of the trunk road”*) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr

A4042 o Lanelen i System Gylchu Hardwick, y Fenni, yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Atal

7. Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen, y Fenni, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2002(3) wedi eu hatal o ran y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 4 ar waith.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn.

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 10 Ionawr 2013

R Morgan

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd
(Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30
o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn
bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) OS 2002/2549 (Cy.249)

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 10 MYA DROS DRO A GWAHARDD GODDIWEDDYD DROS DRO

- i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd i'r gogledd o Lanelen
sy'n ymestyn o bwynt 399 o fetrau i'r gogledd o
ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt wrth
ei chyffordd â System Gylchu Hardwick, y Fenni.
- ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd, i'r de o Lanelen, sy'n
ymestyn o bwynt 603 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei
chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o
ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDD GODDIWEDDYD DROS DRO

Y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Lanelen sy'n
ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei
chyffordd â'r B4269, hyd at bwynt 399 o fetrau i'r
gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269.

ATODLEN 3

GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth ei
chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt wrth ei chyffordd â
System Gylchu Hardwick, y Fenni.